COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) A GYNHALIWYD YN REMOTELY VIA SKYPE FOR BUSINESS DYDD MAWRTH, 10 TACHWEDD 2020, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A Hussain | RM James | JE Lewis | JR McCarthy |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

B Jones a/ac A Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kirsty Evans | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Katie Wintle | Cyfreithiwr |

221. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

222. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Trwyddedu dyddiedig 11 Chwefror a 22 Medi 2020, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir

223. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer cerbyd hurio preifat.

Gwnaed y cais gan Jason Stretch o Borthcawl i drwyddedu Vauxhall Vivaro 2900 Combi, rhif cofrestru'r cerbyd NU64 GUF fel cerbyd hurio preifat i eistedd 6 pherson. Roedd Mr Stretch yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi ei gais.

Roedd y cerbyd yn ail-law ac fe'i cofrestrwyd gyntaf yn y DVLA ar 25 Medi 2014.

Dywedodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu, fod y cais y tu allan i'r Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Roedd y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Roedd adroddiad gwasanaeth wedi'i gyflwyno ar gyfer 4 Rhagfyr 2015 a chofnodwyd 6,094 o filltiroedd; 11,323 o filltiroedd ar 17 Tachwedd; 16,294 o filltiroedd ar 24 Hydref 2017; 20,217 o filltiroedd ar 1 Hydref 2018; a 23,196 o filltiroedd ar 18 Medi 2019. Cyflwynwyd MOT cyfredol dyddiedig 10 Gorffennaf 2020 gyda 25,085 o filltiroedd wedi'u cofnodi.

Ar 27 Hydref 2020 archwiliodd Swyddog Gorfodi'r cerbyd a gwelwyd bod y cerbyd mewn cyflwr da. Darparwyd Ffurflen Asesu'r Cerbyd yn Atodiad A i'r adroddiad. Ar adeg yr arolygiad cofnodwyd 28,468 o filltiroedd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddai'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, yn ôl yr angen pan fyddai hyn yn ofynnol.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach gan yr Aelodau, dywedodd Mr. Stretch fod gan y cerbyd risiau/ramp, er mwyn darparu ar gyfer cadeiriau olwyn yn ddiogel.

Ymgiliodd yr Aelodau i ystyried y cais, ac ar ôl dychwelyd

PENDERFYNWYD: Ystyriodd yr Is-Bwyllgor y cais am gofrestru NU64 GUF fel cerbyd llogi preifat.

Nododd yr aelodau nad oedd yn dod o dan bolisi 2.1 oherwydd oedran a milltiroedd y cerbyd am y rhesymau a amlinellir ym mharagraff 4.5 yr adroddiad

Nododd yr aelodau y gellid llacio'r polisi fel y nodir ym mhara 2.2 y polisi oherwydd ansawdd eithriadol uchel y tu mewn a'r tu allan a'r safonau diogelwch eithriadol uchel. O'r herwydd, roedd yr Is-Bwyllgor yn hapus i ddyfarnu'r drwydded

224. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:40